| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 Ionawr 2020** |
| **TEITL:** | **Trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog – Timau Adnoddau Cymunedol** |
| **AWDUR:** | **Meilys Heulfryn Smith**<br>**Arweinydd Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno'r papur briffio a welir yn Atodiad 1 i sylw'r aelodau, er mwyn iddynt gael trafodaeth ar y materion a chynnig sylwadau a / neu argymhellion.** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r cyfeiriad strategol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod yn y strategaeth 'Cymru Iachach', mae gwaith ar y gweill ar draws Gwynedd a Môn i wedd-newid y ffordd y bydd pobl yn cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymunedol.

1.2 Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn cael eu sefydlu, sef timau o bobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol. O fewn y timau, ceir swyddogion o'r cyngor a'r bwrdd iechyd, meddygon teulu a gwasanaethau gofal cychwynnol eraill, cynrychiolwyr o'r trydydd sector a darparwyr preifat.

1.3 Mae'r rhaglen drawsffurfio i sefydlu'r Timau newydd hyn yn eang a chymhleth ar sawl ystyr. Un o'r materion amlwg yw'r angen i sicrhau bod yr holl faterion perthnasol o ran darparu gwasanaethau mewn cyd-destun dwyeithog yn cael eu gwyntyllu a'u cyfarch yn briodol.

1.4 Yn Atodiad 1, fe welir Papur Briffio sy'n amlinellu'r prif faterion perthnasol o ran yr Iaith Gymraeg o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â hawliau dinasyddion, a materion yn ymwneud â'r her ymarferol o ddod â staff o sefydliadau gwahanol (sydd â'u polisïau ieithyddol mewnol eu hunain) at ei gilydd.

## 2. Ymateb i'r her

2.1 Fe welir o'r papur yn Atodiad 1 bod gwaith ar y gweill i ymateb i'r materion sy'n codi. Ers Hydref 2019, mae tîm wedi'i sefydlu i gefnogi'r gwaith trawsffurfio ar gyfer Iechyd a gofal cymunedol ar

draws Gwynedd a Môn, am gyfnod o flwyddyn a hanner. Mae hyn yn rhoi capasiti ychwanegol er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

2.2 Mae'r tîm trawsffurfio eisoes wedi cychwyn cydweithio gyda swyddogion iaith o Wynedd, Môn a'r Bwrdd Iechyd, a'r cam cyntaf yw sefydlu gwaelodlin o ran sgiliau iaith y gweithlu ym mhob ardal. Hefyd, mae cydweithio yn parhau â'r fforwm ar gyfer gweithredu gofynion Mwy na Geiriau.

2.3 Yn fuan yn ystod 2020, mae angen llunio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r materion perthnasol.

## 3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor

3.1 Mae cefnogaeth barhaus y Pwyllgor i'r agenda hon i'w chroesawu. Mae buddiannau amlwg iawn i'w cael o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal ac nid oes neb yn dadlau yn erbyn hynny. O safbwynt ieithyddol, yr her fydd cynnal y diwylliant, y disgwyliadau a'r safonau y mae Cyngor Gwynedd wedi ymgyrraedd atynt dros y blynyddoedd diwethaf, o ystyried y bydd amrediad eang o sefydliadau yn cydweithio yn agos iawn.

3.2 Byddai'n fanteisiol derbyn sylwadau neu argymhellion gan y Pwyllgo. Yn benodol, a oes materion perthnasol y credir y dylid eu hystyried nad ydynt wedi eu cynnwys yn Atodiad 1? Hefyd, a oes gan y Pwyllgor farn gref ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen waith sydd i'w llunio i ymateb i'r materion perthnasol?